# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
# LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc/ *Clerk* | 26 Stryd Fawr |
| **Caroline Jones** | Bethesda |
| 01248 602131 | Gwynedd |
| cyngorLlanllechid@ogwen.org | LL57 3AE |


**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol mis Ebrill a gynhaliwyd ar nos Iau yr 11fed o Fehefin 2026 am 7yh yn Festri Capel Bethlehem, Talybont**

**1. Presennol**

**Ward Llanllechid Isaf**
Y Cynghorydd Evan Jones
Y Cynghorydd Robin Williams
Y Cynghorydd Geraint Hughes
Y Cynghorydd Lowri Evans
Y Cynghorydd Wyn Bowen Harries
Y Cynghorydd Alun Thomas.
Y Cynghorydd Rhydian Williams

**Ward Llanllechid Uchaf**
Y Cynghorydd Dafydd Jones
Y Cynghorydd Kevin Williams

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Y Cadeirydd, Y Cyng. Robin Williams.

**2.Ymddiheuriadau**

Dim

**3. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 14fed o May 2026.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**4.1 Arwyddion Maes y Groes –** Gohebiaeth gan Meirion MacIntyre-Huws, 10-3-26 Mae Priffyrdd wedi addo gosod yr arwydd yn yr wythnosau/mis neu ddau nesaf. Y Clerc i ddilyn fyny.

**4.2 Tyllau yn y ffordd a dwr yn codi Lôn Aber Ogwen–** Y Clerc wedi wedi siarad gyda Mr Ian Morgan, Cyngor Gwynedd ar yr (11/9/25). Dim diweddariad, dal ar y rhestr waith.

**4.3 Diffyg biniau ar lwybr beicio Wîg a diffyg bin yn y Gilfan gyferbyn ar yr A55 –** Y Y Cyng Rhydian Williams wedi ymweld a'r safle a tynnu lluniau. Dim ysbwriel.

**4.4 Terfyn Cyflymder Lon Wig -** Siân Gwenllian, Aelod o'r Senedd dros Arfon - wedi ysgrifennu at Cyngor Gwynedd yn gofyn am diweddariad.

**4.5 Sedd Wag Llanllechid Uchaf –** Dim diweddariad

**4.7 Lôn Goed –** Lôn wedi culhau a drain wedi gordyfu – Ebost gan Ian Morgan 11-3-26 Arolygwr ffyrdd am daro golwg. Preifat yw'r mwyafrif o gloddiau sydd gyfochrog a'r rhwydwaith ffyrdd cyhoeddus. Mae tyfiant o'r cloddiau fod wedi cael eu torri fel rhan o gylch gwaith cynnal y tir berchnogion lleol. A hynny dros gyfnod y gaeaf tra mae'r cyfyngiadau tymor nythu ddim mewn lle.
Y Clerc i rannu rhif ffon y Cyng Kevin Williams gyda Mr Morgan.

**5. Adroddiad Cyngor Sir, Y Cyng Dafydd Meurig.**

Dim adroddiad.

**6. Taliadau**

| | | |
|---|---|---|
| Defib Store Ltd | Defib x2 | £108 |
| Zurich | Yswiriant | £536 |
| Rhydian Williams | Petrol- mower | £18.12 |

**7. Y Mynydd**

**7.1 Cwt Dafydd Ross** - Y plac yn cael ei osod ar y 13-6-26.

**7.2 Cymdeithas Merlod**

Ebost wedi ei yrru i Abbie Edwards yn gofyn am eglurhad

- Beth fydd cyfansoddiad y gymdeithas?
- Syd mae Abbie yn rhagweld perthynas rhwng y Cyngor Cymuned a'r gymdeithas?
- Beth fydd cyfrifoldebau y Cyngor Cymuned?

Dim diweddariad

**8. Cae Peldroed/Cae Chwarae Talybont**

- Y Clerc wedi cysylltu gyda Mr Llifon Foulkes, Cyngor Gwynedd am feinciau i'r cae chwarae. Mae'r meinciau ar gael i'w casglu.

- Derbynwyd ymateb cwyn gan drigolyn Talybont am leoliad ac edrychiad y cwt ar y cae peldroed. Trafodwyd y cŵyn. Mae'r cyngor yn fodlon ystyried, fel rhan o'r prosiect, sgrinio'r cynhwysydd o'r golwg trwy blannu gwrych brodorol.
  Bydd hyn yn dibynnu ar faint o gyllid a dderbynnir. Y Clerc i ymateb i'r trigolyn.

- Sioe Amaethyddol – Y Cyng Evan Jones a Y Cyng Rhydian Williams wedi mynychu y Sioe Amaethyddol gyda holiaduron y Cae Cymunedol.

**9. Cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol/Approve the Annual Return**

Ffurflen wedi ei chymeradwyo

**10. Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol/Approve the Annual Report**

Adroddiad wedi ei chymeradwyo

**11. Gohebiaeth**

**11.1 Cyngor Gwynedd Pwynt Gweithredu Ardoll Ymwelwyr Gwynedd –** Y Cyngor yn cefnogi

**11.2 Cneifio Cyflym Dyffryn Ogwen Cais am nodd**- Penderfynwyd nodd o £210

**12. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**

Dim i drafod

**13. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio**

**C26/0083/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Cais i waith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed
Gwrthwynebiad ar sail y nifer o goed sydd wedi ei thorri yn flaenorol
**Penderfyniad** Ar y gweill

**NP3/21/LB67A**
Tŷ Ffrancon, Nant Ffrancon, Bethesda.
Caniatâd Adeilad Rhestredig i amnewid pump ffenestr flaen wedi eu pydru tebyg am debyg
**Penderfyniad** Ar y gweill

Dim gwrthwynebiad

**Ceisiadau Newydd**

Dim

## 14. Materion Brys/Eraill

**Hyfforddiant Ciciwr Calon -** Hoffem estyn ein diolch i Arwyn Tudur Jones â ymunodd â ni i ddarparu hyfforddiant Ciciwr Calon (de-fib).

**Adnewyddu Stand Llefrith Bryn Owen –** Ffurflen gais wedi ei chwblhau am grant Gwynedd Ni.

## 15. Adroddiad Llais Ogwan

- Diolch i Arwyn Tudur Jones â ymunodd â ni i ddarparu hyfforddiant Ciciwr Calon
- Gosod Plac Dafydd Ross
- Croeso nol Alun
- Llongyfarchiadau i CFFI Dyffryn Ogwen

Arwyddwyd gan y Cadeirydd ......................................................... Dyddiad ..................................